# Taclo Sbwriel ar ein Ffyrdd

## Crynodeb o’r papur ymchwil - Mawrth 2017

**Mae sbwriel ar ein ffyrdd, sy’n cael ei daflu o geir neu sy’n cronni o gerbydau, gweithwyr neu ddulliau eraill, yn anharddu ein tirwedd odidog yng Nghymru. Mae’n cael effaith arbennig o weledol sy’n cael ei adlewyrchu yn y cwynion a’r pryderon sylweddol a dderbynnir ar y mater hwn gan Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chan ein rhwydwaith ni o hyrwyddwyr Sbwriel ledled Cymru. Mae sbwriel ar ochr ffyrdd yn gostus, yn anodd ac yn aml yn beryglus i’w glirio ac mae’n gost sylweddol i’r trethdalwr.**

Yn ogystal â bod yn anodd ei gasglu, mae hefyd yn anodd iawn meintioli sbwriel ar ochr y ffordd neu gynnal dadansoddiad cywir o’i gyfansoddiad. Er y gall ffigurau o arolygon blynyddol LEAMS fod yn arwydd da o raddfa a ffynhonnell y broblem, nid yw’r arolygon yn cynnwys prif ffyrdd a chylchfannau lle mae’n hysbys bod cyfraddau sbwriel yn arbennig o uchel.

Ar gyfer y papur hwn, fe wnaethom gyflwyno arolwg i’r ddwy Asiantaeth Cefnffyrdd yng Nghymru ac i bob un o’r 22 awdurdod lleol i geisio canfod costau, maint a graddfa’r broblem. Er nad oedd costau wedi eu dadansoddi ar gael gan yr holl asiantaethau a arolygwyd, rydym wedi gallu amcangyfrif costau casglu a gwaredu fel cyfartaledd ledled Cymru er nad yw’r ffigurau hyn yn cynrychioli costau mwy uniongyrchol anharddwch gweledol a niwed amgylcheddol i bridd, dyfrffyrdd a bywyd gwyllt.

Er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr ac i gefnogi argymhellion a dderbyniwyd gan swyddogion gorfodi awdurdodau lleol, mae deddfwriaeth ac arferion gorfodi perthnasol wedi eu cynnwys. Yn yr adroddiad hwn, mae dysgu o wledydd eraill wedi ei gynnwys yn yr adrannau ‘Tynnu Sylw’, yn cynnwys cynlluniau ‘Mabwysiadu Cefnffordd’ sydd wedi cael eu cynnal yn yr Unol Daleithiau ers degawdau.

Ategir trwy gydol y papur hwn bod sbwriel ar ochr y ffordd yn broblem aml-haen y mae angen mynd i’r afael â hi ar raddfa fawr. Ni ellir ei wahanu o’n dewisiadau yn ymwneud â ffordd o fyw, ein llwybrau cymudo a’n dibyniaeth ar y car ar gyfer teithio. Mae gyrwyr ceir yn ddemograffig arbennig o amrywiol ac ni chafwyd unrhyw ymdrech ar y cyd i’w targedu yn benodol yn ymwneud â’r mater hwn.

Am y rheswm hwn, mae ein hargymhellion ar ddiwedd y papur hwn yr un mor gyfannol o ran ymagwedd ac yn cynnwys sbectrwm polisi eang.






Am gopi o’r adroddiad, cysylltwch â leq@keepwalestidy.cymru

Ni yw Cadwch Gymru’n Daclus – yr elusen sydd yn gweithio ar draws Cymru i ddiogelu ein hamgylchedd nawr ac i’r dyfodol. Rydym yn gweithredu’n ymarferol, yn cyflwyno addysg amgylcheddol, hyfforddiant, gwasanaethau busnes ac atebion amgyylcheddol ar hyd a lled Cymru.Rydym yn gwneud hyn i gyd am un rheswm – ein gweledigaeth yw i ofalu am Gymru a’i gwneud yn hardd er mwyn i bawb allu ei mwynhau.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB 029 2025 6767 keepwalestidy.cymru
comms@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru’n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13

cadwch gymru’n daclus keep wales tidy